north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 15fed Mawrth 2019

**TEITL:** *Diweddariad ar Raglen Waith y BUE*

**AWDUR:** *Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas y ddogfen (sydd wedi gynnwys yn Atodiad 1) ydi i roi diweddariad ar gynnydd y tasgau o fewn Rhaglen Waith y BUE. Mae holl dasgau y Rhaglen Waith wedi ei adolygu a chael statws RAG er mwyn adrodd ar y cynnydd.

1.2. Cafodd y Rhaglen Waith ei cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar y 1af o Chwefror 2019.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo statws RAG pob tasg o fewn y Rhaglen Waith.

## 3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Diweddaru ar gynnydd tasgau'r Rhaglen Waith.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r rhaglen waith yn gosod allan tasgau allweddol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd dros 3 chwarter. Mae'r rhaglen waith yn adnabod 10 categori allweddol, gyda tasgau penodol yn erbyn y categorïau. Mae amserlen a cyfrifoldeb wedi osod yn erbyn pob tasg, ynghyd a statws RAG.

4.2. Mae pob tasg wedi ei adolygu ac wedi cael statws RAG, yn unol a'r canllawiau isod:

| Statws RAG | Statws y dasg | Camau angenrheidiol |
|---|---|---|
| GWYRDD | Ar y trywydd iawn i'w gwblhau o fewn yr amserlen ddymunol | Dim angen camau rheoli |
| MELYN | Efallai bod risg na fydd y dasg yn cyrraedd yr amserlen | Camau rheoli ei angen i fynd i'r afael â materion |
| COCH | Mae risg bod y dasg yn mynd i fethu'r dyddiad cwblhau a amserlenwyd | Camau brys eu hangen i fynd i'r afael â materion |

4.3. Mae pob tasg sydd wedi ei amserlennu ar gyfer Ch1 2019 ar y trywydd iawn i gwblhau o fewn yr amserlen ac efo statws RAG gwyrdd, gyda'r eithriad o'r isod mewn melyn:

- Sesiynau Herio gyda Gweinidogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru – bydd rhain yn cael ei trefnu yn ystod Ch2.
- Adnabod, adolygu a chytuno ar gyllideb dros 3 blynedd a chyfraniadau gan yr holl bartneriaid – Mae cyllideb wedi baratoi ar gyfer y flwyddyn drosiannol 2019/20. Gan bod mwy o wybodaeth ei angen ar gyfer adnabod ffigyrau gweithredol ar gyfer 2020-21 a tu hwnt, bydd y Corff Atebol yn anelu i ddarparu cyllideb 3 blynedd erbyn Ch1 2020.

4.4. Mae Swyddog Adran 151 y Corff Atebol wedi cynnig y newidiadau isod i'r Rhaglen Waith:

- Cytuno ar y sefyllfa gyda NNDR a chyfalafu – awgrymir newid yr amserlen ar gyfer cwblhau i Ch3 2019 oherwydd y ddibyniaeth ar wybodaeth fydd y rheolwyr prosiect yn baratoi fel rhan o'r achosion busnes yn Ch2 2019.
- Adnabod a chytuno ar ofynion benthyca'r Awdurdodau Lleol – Dylai'r cyfrifoldeb yn erbyn y dasg yma gael ei newid o "Swyddogion Adran 151 a Swyddogion Monitro / Corff Atebol / Cyd-bwyllgor" i "Bartneriaid ac swyddogion cyllid y Corff Atebol".

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Dim.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Mae'r Rhaglen Waith wedi datblygu gan y Cyfarwyddwr Arweiniol gan ymgynghori gyda'r Grŵp Swyddogion Gweithredol.

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Rhaglen Waith Sylfaenol BUE

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Corff Atebol:**

"Mae monitro cynnydd ar y Prosiect Twf yn cynrychioli un o ddyletswyddau creiddiol y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Dim sylwadau i'w hychwaenegu o safbwynt priodoldeb."

**ii. Pennaeth Cyllid – Corff Atebol:**

"Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad yma ac rwy'n cadarnhau'r agweddau ariannol o'r cynnwys."